

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â John G. Jones a Gwynant Jones (Llansannan) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Eluned. Cyflwynwn hwy oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt.

Anfonwn ein cofion at Dilys Jones (Nantglyn) sydd yn ôl yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Yr ydym yn ei chofio ac yn ei hamgylchynu hi ac eraill o'n plith sydd wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ein gweddiau, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn. Parhawn i gofio hefyd am y rhai ohonoch sy'n aros am wahanol driniaethau a gweddiwn eich bod yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dilys Roberts (Henllan) sydd newydd ddatlu penblwydd arbennig, ac i Ann Evans (Llansannan) fydd yn datlu penblwydd arbennig yn ystod yr wythnos sy'n dod. Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Mared Vaughan (Saron) a Richard ar eu dyweddiad.

Calendr Cristnogol – Cyfle olaf (16 copi ar ôl)

Mae cyfle arbennig i unigolion ac eglwysi i archebu Calendr Cristnogol ar gyfer 2022 sy'n cynnwys adnodau mewn print bras o gyfieithiad Beibl William Morgan. I sicrhau copi (neu gopiau) am bris gostyngol o 50c yr un, cysylltwch â Mair.

Coleg y Bala

⇒ **CWRS IEUENCTID (11-14 oed)** yng Ngholeg y Bala, Rhagfyr 3^{ydd}–5^{ed} Penwythnos o weithgareddau, gemau, sgysiau o'r Beibl, a thrip i Tree Top ym Metws y Coed ar y dydd Sadwrn. Y gost yw £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**. (Gweler isod i archebu lle.)

⇒ **HWYL YR WYL (i blant 7-11 oed)** – Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11^{eg}. Diwrnod yn llawn gemau, crefft a chanu, ac yn gyfle i ddod â stori'r geni yn fyw i'r plant fydd yn mynychu. Y gost fydd £12 (hanner pris i frawd neu chwaer o'r un teulu).

⇒ **I archebu lle, ewch i'r wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu i gael ffurflen bapur, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / colegybala@ebcpw.cymru, os gwelwch yn dda.**

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (8^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28 Tachwedd 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Pan glywch y gair adref, beth fydd yn dod i'ch meddwl? Dwi'n holi'r cwestiwn gan fod 'hawl i fyw adra' wedi dod yn slogan gyfarwydd ym Mhen Llŷn dros y blynyddoedd diwethaf. Ac erbyn hyn mae gwleidyddion yn y Senedd hefyd yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â sefyllfa ddrys tai yng Nghymru.

Felly beth mae adref yn ei gynrychioli i chi? Mae'n debyg y bydd ein hateb yn dibynnu ar ein profiadau, a'r ffordd yr ydym yn gweld ein hunain. Dwi'n dychmygu bod cryn wahaniaeth rhwng 'adref' i rywun sydd wedi cael ei fagu ar fferm deuluol Gymreig o'i gymharu â'r person gafodd ei fagu mewn sawl tref wahanol. A tydi 'adref' ddim yn derm cadarnhaol bob tro ychwaith. I'r ffoadur neu'r rhai gafodd fagwraeth anodd, gall 'adref' gynrychioli tristwch, ofn, a lle i ddianc ohono.

Ond beth bynnag yw adref i ni, wrth droi at y Beibl gwelwn fod adref rhagorach i'w gael yn yr Arglwydd Iesu Grist. Gwnaeth un awdur Cristnogol sylwad fel hyn: 'Mae cael ein caru heb gael ein hadnabod yn braf ond yn arwynebol. A chael ein hadnabod heb gael ein caru yw'n ofn pennaf. Ond trwy gariad Duw cawn ein hadnabod a'n caru'n llawn, sef yr hyn yr ydym ei angen yn fwy na dim.'

A dyna'r darlun bendigedig a gawn trwy'r Efengyl: bod cariad Duw wedi arwain at newid byd syfrdanol wrth i aberth Crist alluogi gelynyddion i gael eu troi'n blant annwyl. Wrth edifarhau, credu yng Nghrist, a derbyn yr Ysbryd Glân, dywed y Beibl fod Cristnogion yn cael eu mabwysiadu yn blant i Dduw: 'Ac os ydyn ni'n blant iddo, byddwn ninnau hefyd yn derbyn yr holl bethau da mae'n ei roi i'w Fab, y Meseia. Ond cofiwch wedyn, os ydyn ni'n cael rhannu yn ei ysblander mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddiodef gydag e hefyd.' (Rhufeiniaid 8:17 beibl.net)

Fel y gwelwn o'r adnod hon, nid yw Duw yn addo bywyd hawdd i'w blant, ond mae'n rhoi addewidion gwerthfawr o'r Ysbryd i'n nerthu a'i ddaioni rhyfeddol i ddarparu ar gyfer ein hanghenion bob cam o'r ffordd. Ac wedi gwneud ein cartref yng Nghrist, mae gennym hunaniaeth, pwrpas, a gobaith newydd i ddiolch amdano a'i rannu gydag eraill. Wrth orffen, ystyriwch eiriau'r Apostol Paul at Gristnogion Philipi: 'Dŷn ni'n ddinasyddion y nefoedd, ac yn edrych ymlaen yn frwd i'n Hachubwr, yr Arglwydd Iesu Grist, ddod yn ôl o'r nefoedd.' (Philippiaid 3:20 beibl.net) Ydi hynny'n wir amdanom ni?

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Cyfarfod Gweddi yn Llanfair a Llansannan am 10:00** a bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.

➤ Bydd **Oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 10:30 ac Ysgol Sul am 2:00.**

Sul nesaf – Rhagfyr 5^{ed} ➤ **Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.

Sul – Rhagfyr 12^{fed} ➤ **Oedfa Garolau'r Fro yn Llansannan am 5:00.**

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00** o dan arweiniad Rhodri. (Nid oes bellach angen rhoi eich enw ar gyfer yr oedfaon yn Henllan.)

➤ **Amser i gofio, amser i fyfyr** am 3:00, 4:00 a 5:00 yng Nghapel Henllan. Cyfle i bobl cymuned Henllan ddod at ei gilydd a goleuo kannwyll, yn enwedig y rhai â gollodd anwyliaid yn ystod y ddwy flynedd diwetha fu mor anodd a chreulon.

Sul nesaf – Rhagfyr 5^{ed} ➤ **Oedfa yn Groes am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00** o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. (Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@bryname1.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.)

➤ **Ysgol Sul y plant yn Henllan** am 10:30.

Sul – Rhagfyr 12^{fed} ➤ **Ysgol Sul y plant yn Henllan** am 10:00.

➤ **Oedfa Garolau'r Fro yn Llansannan am 5:00.**

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Oedfa i'r Daith (Saron, Peniel a Nantglyn) yn Saron am 10:00** o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.

Sul nesaf – Rhagfyr 5^{ed} ➤ **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad Rhodri.

Sul – Rhagfyr 12^{fed} ➤ **Oedfa Garolau'r Fro yn Llansannan am 5:00.**

Y Fro

Sul yma – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Ffestri Llansannan o dan arweiniad Rhodri am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.

Nos Lun, Tachwedd 29^{fed} a Dydd Gwener, Rhagfyr 3^{ydd}) ➤ **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y chweched sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Sul nesaf – Rhagfyr 5^{ed} ➤ **Gwreiddiau** – Daeth gwahoddiad i ni ymuno ag Eglwys Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych o 3:00-5:00 am amser o addoliad a chymdeithas. Addas i bob oed, gyda darpariaeth dwyieithog. Bydd angen cofrestru o flaen llaw (<https://forms.gle/ER5H7DVCDosCCeCKg>).

Nos Fawrth, Rhagfyr 7^{fed} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7.30.

Dydd Mercher, Rhagfyr 8^{fed} ➤ **Gwasanaeth Carolau Rhithiol Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru** am 11:00. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

OEDFA NADOLIGAIDD

BRO ALED

Nos Sul, Rhagfyr 12fed yn Llansannan am 5:00 yr hwyr

Cyfle i ganu carolau hefo'n gilydd ac i wrando ar y Gair. Oherwydd y bydd rhaid cyfyngu ar y nifer all fod yn bresennol, cysylltwch â Mair (01745 870632 / 07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com) erbyn y nos Wener blaenorol fan bellaf i sicrhau lle. Y cyntaf i'r felin...! Rhag ofn i ni fethu darlledu'n fyw ar y we o'r capel, ac ar gyfer y rhai fydd yn methu ymuno â ni, bwriadwn recordio'r gwasanaeth – bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf. DISGWYLIR I BAWB FYDD YN BRESENNOL WNEUD POB YMDRECH POSIB RHAG LLEDAENU COVID.

